# Ysgol Treganna

## Cylchlythyr Wythnosol



## Wythnos yma

### Seremoni gwobrwyo Celf a Chrefft

Llongyfarchiadau i bawb wnaeth gystadlu yng nghystadleuaeth Celf a Chrefft yr Urdd. Bydd seremoni gwobrwyo Celf a Chrefft Gorllewin Caerdydd a'r Fro yng Nghapel Salem, ar ddydd Llun yr 11eg o Fai, i bawb sydd wedi derbyn 1af, 2il neu 3ydd. Bydd y seremoni yn cychwyn am 4.00yp.

### Pêl droed

Llongyfarchiadau i dîm pêl droed merched blwyddyn 4 am gystadlu'n wych yng nghystadleuaeth Pêl droed Caerdydd a'r Fro wythnos yma. Roedd ymddygiad y merched yn glod i'r ysgol.

Llongyfarchiadau hefyd i dîm pêl droed bechgyn Bl 5 a 6 wnaeth gystadlu ddoe ym mhencampwriaeth Cymru, yn y Drenewydd. Roedd y bechgyn wedi perfformio'n wych a'r safon yn uchel iawn.Diolch yn fawr i'r staff sydd wedi bod wrthi yn hyfforddi'r ddau dîm.

### Gwersi Telyn

Rydym yn bwriadu cynnig gwersi telyn yn yr ysgol, yn cychwyn mis Medi. Os oes gan eich plentyn ddiddordeb i fynychu'r gwersi yma, cysylltwch gyda'r dderbynfa.

### Llygod cyfrifiadur

Rydym yn chwilio am lygod cyfrifiadur ar gyfer yr ysgol. Os oes gennych unrhyw rai sbâr adref, byddem yn ddiolchgar iawn pe gallech eu dod i mewn i'r ysgol. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

## Calendr

### Diwrnod HMS (Dim ysgol i'r disgyblion) 22.5.28

### Celf a Chrefft Llwyddiant Cenedlaethol!

**Llongyfarchiadau i Esme Jones Creadigol 2D Bl 5 a 6) am ddod yn 2il yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd,**

**Isabella Rhys (Ffotograffiaeth, cyfres o luniau) am ddod yn 3ydd a**

**Ngaaia Henderson (Serameg blwyddyn 2 ac iau) am ddod yn ail.**

**Tipyn o gamp!**

**Bydd cyfle i weld y gwaith yma yn Eisteddfod Genedlaeth Môn.**

**Rydym yn falch iawn ohonoch chi!**

# Ymweliadau a Gweithgareddau Ysgol

Yn Ysgol Treganna rydym yn credu bod ymweliadau a gweithgareddau ysgol yn rhan bwysig o ddysgu, lles a mwynhad pob plentyn o fywyd ysgol.

Mae'r profiadau hyn yn helpu plant i feithrin hyder, datblygu cyfeillgarwch, a chreu atgofion parhaol.Rydym yn deall y gall amgylchiadau teuluol newid, ac y gall cost teithiau ysgol weithiau beri pryder neu deimlo'n anodd i deuluoedd.

Hoffem sicrhau pob teulu nad ydym byth eisiau i bryderon ariannol atal plentyn rhag cymryd rhan yn y cyfleoedd a gynigir gan yr ysgol.

Mae cymorth ar gael i helpu gyda chost teithiau ac eitemau ysgol eraill.

Gall teuluoedd gael rhagor o wybodaeth drwy dudalennau cymorth Llywodraeth Cymru:
https://www.llyw.cymru/prydau-ysgol-am-ddim-cael-help-gyda-chostau-ysgol

Grant Hanfodion Ysgol:
https://www.llyw.cymru/grant-hanfodion-ysgol-help-gyda-chostau-ysgol

Mae croeso hefyd i rieni a gofalwyr gysylltu â'r ysgol yn gyfrinachol os hoffent drafod cymorth neu archwilio pa gymorth gallai fod ar gael.

Bydd unrhyw sgyrsiau'n cael eu trin yn sensitif, gyda pharch, ac yn gwbl gyfrinachol.

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn yn teimlo'n gynhwysol, yn cael cefnogaeth, ac yn gallu mwynhau pob agwedd ar fywyd ysgol.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

# Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon

Rydym yn ddiolchgar iawn i’r rhieni a’r gwirfoddolwyr sy’n gweithio mor galed drwy’r GRhA i godi arian ar gyfer yr ysgol. Mae’r ymroddiad, yr egni a’r gefnogaeth barhaus yn gwneud gwahaniaeth enfawr i brofiadau’r disgyblion, ac mae’r arian sy’n cael ei godi yn cael ei ddefnyddio’n uniongyrchol er budd y plant.

Eleni, mae’r GRhA wedi ariannu nifer o adnoddau a phrosiectau gwerthfawr ar draws yr ysgol, gan gynnwys:

- Adnewyddu’r fframiau dringo
- Llyfrau darllen Cymraeg newydd i’r ysgol
- Ystafell Synhwyraidd newydd
- Ieir a chwt ieir
- Adnoddau ar gyfer yr ardal allanol
- Adnewyddu offer sain y neuadd
- Continwwm chwarae i bob dosbarth
- Offer chwaraeon
- Offer digidol i bob dosbarth

Rydym yn hynod o ddiolchgar am yr holl arian sy’n cael ei godi ac am waith caled pawb sy’n cyfrannu. Heb y gefnogaeth anhygoel hon, ni fyddem yn gallu prynu’r holl adnoddau ychwanegol sy’n cyfoethogi addysg a phrofiadau’r plant.

Mae angen gwirfoddolwyr bob amser i helpu mewn digwyddiadau ac i gefnogi gyda phethau fel pobi cacennau! Os gallwch roi awr neu ddwy o’ch amser i helpu gydag unrhyw ddigwyddiad, byddem yn ei werthfawrogi’n fawr iawn.

Y digwyddiad nesaf fydd **Tregŵyl,** ffair haf gyda cherddoriaeth fyw, yn Nhreganna, prynhawn/nos Wener, 26ain Mehefin. Mwy o fanylion i ddilyn!

Diolch yn fawr!

# Patrwm Iaith yr Wythnos

**Patrwm iaith wythnos nesaf**

Beth sydd i ginio heddiw?

I ginio heddiw mae yna…

**Her**

I ginio fory mae yna…

**Testun trafod yr wythnos**

Beth petai dim lliw yn y byd?

**Cân yr wythnos**

Gwilym - Gwalia

**Idiom yr wythnos**

Mae e’n llygaid ei le/ Mae hi’n llygaid ei lle